

Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 292 –29 Medi 2006
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2006.

Rôl yr Awdurdod

Nodwyd bod y system o arwahanrwydd a'r ddogfen 'Rôl yr Awdurdod' wedi'i gymeradwyo ar ei newydd wedd. Bydd datganiad a chyhoeddiad yn dilyn maes o law.

Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth

Adroddodd y Cadeirydd y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth wedi cyfarfod a chymeradwyo nifer o gynlluniau a pholisïau personél.

Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Gohiriwyd y Pwyllgor uchod.

Polisïau

Cymeradwywyd:

- Polisi S4C i Rwystro Gwahaniaethu ar Sail Anabledd;
- Polisi Iaith Rhaglenni Plant S4C.

Adroddiad Cynadleddau'r Pleidiau Gwleidyddol

Cyflwynwyd adroddiad annibynnol Prifysgol Cymru Aberystwyth/Thompson Foundation. Nodwyd bod y gwasanaeth wedi darlledu'r cynadleddau yn ddiuedd.

Adroddiad y Cadeirydd

- Mynegwyd llongyfarchiadau i Roger Lewis ar ei benodiad yn Brif Weithredwr Undeb Rygbi Cymru
- Nodwyd llwyddiant derbyniadau yn y Sioe Amaethyddol ac o'r Eisteddfod Genedlaethol a diolchwyd i holl staff oedd yn gysylltiedig gyda'r digwyddiadau.
- Nodwyd bod S4C wedi cynnal derbyniadau yng nghynadleddau Cenedlaethol Gwleidyddol y Blaid Lafur, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol. Bydd derbyniad y Torïaid yn cael ei gynnal yn ystod eu cynhadledd.
- Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar ei ymweliad ar 13 o gwmnïau annibynnol dros y misoedd diwethaf.

Adroddiad y Prif Weithredwr

- Nododd yr Awdurdod bod S4C, yn unol â'r Strategaeth Rhaglenni, yn comisiynu ar sail safon rhagoraeth ac nid oes polisi o gomisiynu ar sail ranbarthol.
- Mynegwyd boddhad ar y trafodaethau gyda'r BBC ar Gofod Digidol.
- **TAC** – Mynegwyd llongyfarchiadau i Dafydd Rhys ar ei benodiad fel y Cadeirydd newydd TAC. Diolchodd yr Awdurdod am gyfraniad Huw Eurig Davies fel cyn Gadeirydd TAC.
- **Rygbi** – Tynnwyd sylw'r Aelodau bod S4C wedi llwyddo i sicrhau hawliau rygbi Cymru ar y cyd â'r BBC am y pedair blynedd nesaf.

Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Comisiynu ei hadroddiad lle nodwyd bod digwyddiadau'r haf wedi bod yn llwyddiannus dros ben.

Materion Eraill

Rhodddwyd cyflwyniad Tracio Delwedd a Rolling Panel gan Jon Priest o gwmni SPA.
Rhodddwyd cyflwyniad chwarterol gan yr Adran Ymchwil.

Cyflwynwyd y papurau canlynol:-

- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Ymchwil Misol
- Rhestr o gyfarfodydd 2007